**Sesiwn 2000-2001 Rhif 64**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 5 EBRILL 2001

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Atebwyd y 7 cwestiwn cyntaf

**9.20am**
**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Atebwyd y 5 cwestiwn cyntaf

**9.37am**
**Datganiad:**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig** ar Glwy'r Traed a'r Genau

**10.18am**
**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig** ar gnydau GM

**10.44am**
**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau** ar Ganolfan Mileniwm Cymru

**11.25am**
**Pwyntiau o Drefn**

1. Jonathan Morgan ar gyfarfodydd pwyllgorau pwnc (RhS 9.10)
2. Rhodri Glyn Thomas ar ateb cwestiynau llafar atodol (RhS 6.30)
3. Nick Bourne ar gyhoeddi canllawiau ar gynnal busnes yn ystod cyfnod etholiad cyffredinol

**11.35am**
**Cynnig i gymeradwyo'r Datganiad Busnes tri mis**

*Gwnaeth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y Cynnig Heb Ddyddiad Trafod canlynol a gyflwynwyd ar 3 Ebrill 2001*

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn nodi'r amserlen 3 mis arfaethedig ar gyfer Busnes y Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Ebrill 2001, o dan Reol Sefydlog 5.1.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig**

**11.37am**
***Cynnig cyfansawdd:***

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:*

- yn cymeradwyo:

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

- yn cymeradwyo:

Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

- yn cymeradwyo:

Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2001.

- yn cymeradwyo:

Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001; ac

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Henebion (Ceisiadau am Gydsyniad Heneb Gofrestredig) (Ffurflenni a Manylion Cymraeg) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0 Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd y cynnig cyfansawdd**

**11.37am**
**Cymeradwyo Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2)**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**William Graham (Dwyrain De Cymru):**

*Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:*

Yn nodi'r beichiau ariannol a biwrocrataidd ychwanegol ar roddir ar dirfeddianwyr ac awdurdodau o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth hon ac yn cydnabod bod cytundebau mynediad gwirfoddol yn ffordd ymlaen sy'n fwy costeffeithiol a chyfranogol.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**
**Gwelliant**

O Blaid 7; Ymatal 13; Yn erbyn 26; Cyfanswm 46

**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**

**O Blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 46**

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n peri pryder dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001.

yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Mawrth 2001.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 7; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig**

**11.58am**
**Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cyngor Addysg Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion o dan Reol Sefydlog 11.5 sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyngor Addysg Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mawrth 2001;

yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mawrth 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Mawrth 2001.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd y cynnig**

**12.08pm**
**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a geir yn neu o dan Reoliadau a wneir o dan Adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a geir yn neu o dan y Rheoliadau a wneir gan:

(a) y Cynulliad Cenedlaethol (boed y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol ar ei ben ei hun neu ar y cyd â Gweinidog y DU, Adran o Lywodraeth y DU neu Weithrediaethau'r Alban neu Ogledd Iwerddon) o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972 yn unol â'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad gan:

i. Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 3) 1999 (SI 1999/2788) (ar gael ar wefan yr HMSO yn http://www.hmso.gov.uk/si/si1999/19992788.htm; a
ii. Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodiad) (Rhif 3) 2000, (SI 2000/2812) (ar gael ar wefan yr HMSO yn http://www.hmso.gov.uk/si/si2000/20002812.htm; neu

(b) Weinidog y DU o dan ei bwerau cyd-gyfredol, o dan yr adran 2(2) dywededig at yr un dibenion.

i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rheini na ellir drwy ddeddf eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd y cynnig**

**12.11pm**
**Cymeradwyo newidiadau i Reol Sefydlog 23, Adran 3 a Rheol Sefydlog 34**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru a Rheol Sefydlog 34:*

i. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Mawrth 2001; a
ii. yn cymeradwyo'r gwelliannau canlynol i'r Rheolau Sefydlog;

## Rheol Sefydlog 34

**1.** Ar ôl paragraff 34.3 ychwanegu,

"34.3A. Caiff y Cynulliad ddarparu y bydd unrhyw reol sefydlog neu unrhyw welliant iddi yn un dros dro a phan fydd rheol sefydlog neu welliant iddi yn un dros dro, dywedir pa mor hir yn union y bydd yn para mewn paragraff ar wahân o'r rheol sefydlog neu'r gwelliant."

## Rheol Sefydlog 23, adran 3

**1.** Ar ôl y pennawd ychwanegu,

"Mae adran 3 o Reol Sefydlog 23 yn gymwys i is-ddeddfwriaeth y Cynulliad, nad yw'n is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad, ac sy'n cael ei gwneud gan y Cynulliad, p'un ai ar y cyd neu beidio, ag un o Weinidogion y DU neu un o Adrannau Llywodraeth y DU, Gweithrediaeth yr Alban neu Weithrediaeth Gogledd Iwerddon."

**2.** Ar ddechrau paragraff 23.9 ychwanegu,

"Yn amodol ar baragraffau 23.11A i 23.11E,";

**3.** Ar ôl paragraff 23.11 ychwanegu,

"23,11A. Yn amodol ar baragraff 23.11E, caiff Cabinet y Cynulliad benderfynu, o dan yr amgylchiadau penodol, nad yw'n rhesymol ymarferol i ddrafft gael ei osod gerbron y Cynulliad o dan baragraff 23.9 ac yn yr achos hwnnw bydd paragraffau 23.11B i 23.11D yn gymwys.

23.11B. Bydd y drafft yn cael ei lofnodi ar ran y Cynulliad yn unol â pharagraff 22.26(iii).

23.11C. Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl i'r drafft gael ei lofnodi o dan baragraff 23.11B bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn gosod memorandwm gerbron y Cynulliad yn hysbysu'r Cynulliad fod yr is-ddeddfwriaeth wedi'i llofnodi ar ran y Cynulliad ac yn esbonio ei heffaith arfaethedig a'r goblygiadau ariannol tebygol.

23.11D. Pryd bynnag y bydd memorandwm yn cael ei osod gerbron y Cynulliad o dan baragraff 23.11C, caiff Aelod, o fewn y cyfnod o 40 diwrnod gwaith gan ddechrau ar y dyddiad y gosodir y memorandwm gerbron y Cynulliad, gyflwyno cynnig yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol –

(a) i ystyried y posibilrwydd o ddiddymu'r is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru; a

(b) i osod gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl adroddiad yn datgan pa gamau y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad wedi eu cymryd neu yn bwriadu eu cymryd yn y cyswllt hwnnw.

23.11E. Bydd effaith paragraffau 23.11A i 23.11E ac, ym mharagraff 23.9, effaith y geiriau "Yn amodol ar baragraffau 23.11A i 23.11E," yn peidio ar 9 Mai 2001".

**4.** Yn lle paragraff 23.12 rhodder:

"23.12. Pan fyddai is-ddeddfwriaeth y mae'r adran hon yn gymwys iddi, os câi'r ddeddfwriaeth ei gwneud gan y Cynulliad yn unig, yn dod o fewn adran 1 neu adran 2 o'r rheol sefydlog hon, bydd darpariaethau'r adran honno neu'r adrannau hynny yn gymwys iddi hefyd ac eithrio:

(a) y bydd y cyfeiriad ym mharagraffau 23.1 a 23.5 at ddarpariaethau paragraffau 22.2 i 22.30 yn cael eu disodli gan gyfeiriadau at baragraffau 23.9 i 23.11E; a

(b) mewn achos y mae paragraffau 23.11A i 23.11E yn gymwys iddo, bydd paragraff 23.2 yn cael effaith fel pe bai "ar ôl i'r Cynulliad gael ei hysbysu" yn cael ei amnewid gan "ar ôl i'r Ysgrifennydd Cynulliad gael ei hysbysu".

Ar yr amod, ar neu ar ôl 9 Mai 2001, yn lle is-baragraffau (a) a (b) o baragraff 23.12, yr amnewidier:

"y bydd y cyfeiriad ym mharagraffau 23.1 a 23.5 at ddarpariaethau paragraffau 22.2 i 22.30 yn cael eu disodli gan gyfeiriad at baragraffau 23.9 i 23.11."

**5.** Ar ôl paragraff 23.13 ychwanegu,

"23.14. Rhaid peidio â dehongli dim yn y rheol sefydlog hon, mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n is-ddeddfwriaeth gyffredinol y Cynulliad, fel ei fod yn drech na chymhwysiad rheol sefydlog 22 i ddeddfwriaeth o'r fath".

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0 Cyfanswm 40

**Cafwyd y mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair a chymeradwywyd y cynnig**

**12.12pm**
**Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru) 2001**

*Gwnaed cynnig trefniadol gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes o dan Reol Sefydlog 6.16 i ddwyn gerbron y Cynnig a ganlyn sy'n wahanol i'r gwaith y cytunwyd arno yn y Rhagolwg ar 27 Mawrth*

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 7) (Cymru) Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Mawrth 2001 a'i e-bostio at yr Aelodau ar 29 Mawrth 2001.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig**

**12.22pm**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**

Mae’r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi pryder mawr ynghylch methiant y Weinyddiaeth Lafur / Ddemocrat Ryddfrydol i sicrhau cyllid sy’n ychwanegol at Floc Barnett gan drysorlys y DU er mwyn mynd i’r afael ag effeithiau:

- llifogydd mewn nifer o ardaloedd yng Nghymru yn ystod Hydref 2000;
- y diswyddiadau posibl yn y diwydiant dur;
- clwy’r Traed a’r Genau a’i effaith ar yr economi wledig.

*Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:*

**William Graham (Dwyrain De Cymru);**

*Ar ôl y pwynt bwled olaf, ychwanegu paragraff newydd:*

Er mwyn atal dirywio pellach yn y lleoedd hyn ac yn economi Cymru yn ehangach, mae'n galw ar y Weinyddiaeth i roi'r gorau i unrhyw gynlluniau i gyflwyno treth fusnes leol.

*Gwnaed cynnig trefniadol gan Jocelyn Davies o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio'r ddadl*

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O Blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 1; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig trefniadol a gohiriwyd y ddadl**

**12.24pm**
**Dadl Fer: Pauline Jarman (Canol De Cymru); Stres – ei effeithiau ar blant**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.51pm**

**************

**Bydd toriad y Pasg o 9 hyd 29 Ebrill**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 1 Mai 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 4 EBRILL 2001**

Rheoliadau Addysg (Estyn Addysg Gyrfaoedd) (Cymru) 2001 LD725

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2001 LD724

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 3 EBRILL 2001**

Adroddiad i'r Cynulliad ar Gynigion i Newid Rheolau Sefydlog y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 34.1 (LD723)

Draft 3 Month Timetable of Assembly Business - Revised (LD722) Dim copïau Cymraeg ar gael

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - The Foot-And-Mouth Disease (Ascertainment of Value) (Wales) (No.2) Order 2001 LD719
Dim copïau Cymraeg ar gael

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Darganfod Gwerth) (Cymru) 2001 LD718

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Tir Mynydd (Daliadau Trawsffiniol) (Cymru) 2001 LD717

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Fformwla Fabanod a Fformwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2001 LD716

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Bwydydd Proses sydd wedi'u Seilio ar Rawn a Bwydydd ar Gyfer Babanod a Phlant Ifanc (Diwygio) (Cymru) 2001 LD715

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2001 LD714

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2001 LD713

Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau - Gorchymyn Clwy'r Traed a'r Genau (Darganfod Gwerth) (Cymru) (HIF 3) 2001(LD712)